Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru | For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru | Care Inspectorate Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Siwgr Plwm Dwynwen

Ysgol Santes Dwynwen
Lon Twnti
Niwbwrch
Ynys Môn
LL61 6TE

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Meithrinfa Siwgr Plwm Dwynwen

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Meithrinfa Siwgr Plwm Dwynwen |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Meithrinfa Siwgr Plwm Cyf |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Sioned Hughes |
| Person â gofal | Sioned Hughes, Amy Williams, Sioned Williams |
| Nifer y lleoedd | 25 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 12 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 8.00 y.b – 6.00 y.h |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Dwyieithog |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 06/05/2026 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r PC/UC roi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau'n effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn natblygiad medrau'r plant.

A2 Datblygu'r asesiadau risg i adlewyrchu'r lleoliad yn well

A3 Mynd i'r afael â'r meysydd diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn hyderus i rannu eu syniadau, dymuniadau neu newyddion gyda'r ymarferwyr. Maent yn symud o gwmpas yr amgylchedd yn rhwydd ac yn gwneud dewisiadau yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn dewis beth i'w fwyta amser snac neu os ydynt am ymuno â'r amser cylch neu beidio. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau, yn ôl eu dymuniad. Mae plant o bob oed yn gwybod bod ymarferwyr yn gwrando ar eu hanghenion a'u dymuniadau ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd yn hapus ac yn  ymgartrefu'n dda. Mae'r ychydig iawn sy'n ansicr yn ymlacio'n gyflym wrth iddynt dderbyn cysur gan ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn rhwydd ac yn cyfathrebu'n hyderus â'r ymarferwyr ac oedolion eraill. Er enghraifft, maent yn holi am gymorth ymarferydd wrth wisgo cot i fynd allan i chwarae. Mae'r plant yn gwybod y bydd ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn parchu eu syniadau. Maent yn mynd at yr ymarferwyr yn hyderus i gael sicrwydd, pan fyddant yn dymuno. Gwelir plant yn gwenu â balchder wrth iddynt gael eu canmol.

Mae llawer o blant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn parchu dyheadau plant eraill ac yn dysgu i rannu'n gynyddol ddeallus. Er enghraifft, mae plant wrth eu bodd yn chwarae gyda ffrindiau neu'n dangos i'r plant ieuengaf sut i ddefnyddio'r adnoddau corfforol tu allan. Mae bron pob un yn dangos parch mawr tuag at ei gilydd, ac mae'r rhan fwyaf yn ystyriol iawn. Er enghraifft, maent yn croesawu eu ffrindiau yn llawn cyffro wrth iddynt gyrraedd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynd ati i archwilio eu hamgylchedd yn frwdfrydig. Maent yn rhyngweithio'n dda mewn gweithgareddau ac yn mynegi eu mwynhad. Er enghraifft, wrth chwarae yn y toes, mae'r plant yn dathlu eu llwyddiant i rolio neu'n galw am ymarferwyr i edrych ar y tŵr maent wedi ei adeiladu. Mae'r plant yn llawn cymhelliant, ac wrth eu boddau'n chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol. Er enghraifft, maent yn gwrando'n astud ar straeon ac yn ymuno â chaneuon actol gan wenu'n braf.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae diddorol. Maent yn mwynhau cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo a bwyta yn gynyddol annibynnol. Maent yn dangos balchder cynhenid wrth gyflawni tasgau fel arllwys diod neu ddefnyddio'r peiriant grawnfwyd, gan ddangos mwynhad wrth dderbyn canmoliaeth.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: **Da**

Mae gan yr ymarferwyr drefniadau effeithiol i gadw'r plant yn iach. Maent yn cynnig byrbrydau iach, llaeth neu ddŵr i'w yfed ac yn annog y plant i olchi eu dwylo. Mae hyn yn helpu i ddatblygu arferion hylendid personol y plant yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn glanhau arwynebau cyn paratoi bwyd ac ar ôl gweithgareddau, gan ddilyn gweithdrefnau rheoli heintiau priodol. Maent yn annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac i chwarae’n fywiog a tu allan. Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu plant ac yn hyderus ynghylch pa gamau sydd angen eu dilyn os oes ganddynt bryder. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn gywir a’u rhannu gyda rhieni a gofalwyr yn amserol. Mae ymarferwyr yn cynnal a chofnodi ymarferion tân yn gyson i sicrhau bod plant yn gwybod beth i’w wneud mewn argyfwng. Mae trefniadau’r lleoliad i ddiogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan ymarferwyr ymagwedd gyfeillgar a gofalgar, ac maent yn rhyngweithio â’r plant yn gadarnhaol. Maent yn canmol plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau. Clywir yr ymarferwyr yn annog y plant yn rheolaidd gydag ymadroddion cadarnhaol. Mae ymarferwyr yn ymatebol i blant, ac yn gwrando a pharchu eu dewisiadau. Mae'r ymarferwyr yn adnabod pob un plentyn yn dda ac yn blaenoriaethu eu hanghenion unigol. Maent yn modelu arferion cyfathrebu cadarnhaol i'r plant ac yn hyrwyddo awyrgylch hamddenol a llawen gan chwerthin a gwenu.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad y plant. Maent yn ymateb i anghenion unigol plant yn brydlon. Mae'r ymarferwyr wedi ymrwymo i ddarparu ystod o weithgareddau a chyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn angerddol am eu gwaith ac yn gweithio’n ddiwyd i ddarparu profiadau amrywiol er mwyn cymell y plant i ddysgu drwy trwy brofiadau byw. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, maent yn adolygu cynlluniau unigol plant ac yn diweddaru eu cofnod taith ddysgu yn drwyadl.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): **Da**

Mae'r ymarferwyr yn meithrin perthynas gryf iawn â'r plant ac yn creu awyrgylch gartrefol iawn. O ganlyniad, mae'r plant yn setlo'n gyflym ac yn awyddus i archwilio ac arbrofi yn syth ar ôl cyrraedd y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio a darparu ystod eang o brofiadau dysgu amrywiol sy'n diwallu anghenion bron bob plentyn yn effeithiol. Maent yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i blant wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac yn sicrhau amrediad eang o adnoddau sy'n sbarduno dychymyg plant yn gyson dda. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu gweithgareddau sy'n ymateb i'w hanghenion yn bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i blant greu marciau cynnar mewn amrywiaeth o ardaloedd tu mewn a thu allan. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ymuno â chaneuon rhif lle caiff blant ddewis eu hoff gân. Mae llawer o'r ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn glir, gan ddefnyddio geirfa a phatrymau cyfarwydd wrth sgwrsio gyda'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau mathemategol plant. Maent yn sicrhau bod bron pob plentyn yn cael cyfleoedd naturiol i gyfrif, adnabod siapiau a defnyddio iaith fathemategol. Er enghraifft, maent yn sgwrsio wrth i'r plant godi tŵr allan o flociau neu greu llun gan ddefnyddio siapiau ar y bwrdd golau. Mae'r ymarferwyr hefyd yn paratoi cyfleoedd effeithiol i blant ddatblygu eu medrau creadigol, drwy annog iddynt ddawnsio a chanu ar y llwyfan tu allan. Maent yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i blant ddatblygu eu medrau digidol. Maent yn darparu ystod addas o adnoddau digidol perthnasol yn yr ardaloedd i gefnogi eu chwarae a'u dysgu, er enghraifft ffôn, botymau siarad a thil.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau corfforol y plant yn gadarn. Mae'r ymarferwyr yn darparu amrediad o adnoddau pwrpasol sy'n caniatáu i'r plant ddatblygu medrau cydbwyso cryf.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau pwrpasol sy'n helpu plant i ddeall eu cymuned leol. Maent yn trefnu ymweliadau ystyrlon gan aelodau'r gymuned, fel ffermwr, heddlu a'r llyfrgell symudol, sy'n cynnig profiadau cyffrous i'r plant. Maent yn meithrin medrau moesol ac ysbrydol y plant drwy gynnig profiadau cyfoethog sy'n eu cysylltu â'r gymuned leol. Er enghraifft, maent yn trefnu gosod torch pabi coch yn neuadd y pentref fel rhan o ddathliadau Sul y Cofio.

Mae prosesau asesu yn datblygu'n briodol. Mae'r ymarferwyr yn dechrau defnyddio arsylwadau i nodi anghenion a chychwyn cynllunio camau nesaf ar gyfer y plant. Fodd

bynnag, nid yw’r wybodaeth bob amser yn cael ei defnyddio’n ddigon systematig i lywio profiadau dysgu a chamau nesaf unigolion.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr a’r ymarferwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân, ac mae ganddynt drefniadau cadarn i reoli mynediad i’r safle. Mae ganddynt weithdrefnau clir sy’n sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi’n brydlon ac mae’r holl gofnodion sy’n ymwneud â’r gwasanaeth yn cael eu cadw’n ddiogel. Mae’r amgylchedd yn un diogel, croesawgar a chartrefol. Mae gan y gwasanaeth asesiadau risg sy’n addas, ar y cyfan. Maent yn asesu amrywiaeth o risgiau fel risg tân, risgiau yn yr ardal allanol ac yn ystod ymweliadau. Fodd bynnag, nid yw’r asesiadau risg bob amser yn adlewyrchu risgiau'r gwasanaeth yn ddigon manwl.

Mae’r ardaloedd chwarae yn eang ac wedi eu trefnu’n effeithiol i ennyn diddordebau’r plant a’u hannog i chwarae’n hapus ac archwilio’n chwilfrydig. Er enghraifft, ceir ardaloedd marcio, llyfrau darllen a siop optegydd, ac mae’r rhain yn annog y plant i ddefnyddio’u dychymyg. Maent yn sicrhau bod yr ardal allanol yn cynnig profiadau estynedig i’r plant. Mae hyn yn galluogi’r plant i ddatblygu medrau corfforol cadarn, ehangu eu dychymyg, a’u hawch at ddarganfod. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu amgylchedd cadarn sy’n sicrhau bod y plant yn teimlo eu bod yn perthyn. Maent yn cyfoethogi hyn drwy arddangos ffotograffau teuluol y plant ynghyd â’u hymdrechion creadigol. Ceir dewis da o adnoddau sydd wedi eu lleoli’n bwrpasol ar lefel y plant er mwyn hybu annibyniaeth

Mae arweinwyr yn cynnig adnoddau o safon dda sy'n addas ar gyfer cam datblygiad ac oedran y plant. Mae dodrefn a chyfleusterau addas ar gael, gan gynnwys cadeiriau a byrddau o faint priodol, er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfforddus ac yn annibynnol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn ymwybodol o amrywiaeth yn y gymuned drwy ymweld â'r ardal leol. Maent yn cynnwys adnoddau addas sy’n codi ymwybyddiaeth plant am y byd o’u cwmpas i ddysgu am y gymdeithas ehangach. Er enghraifft, mae doliau, modelau bach a llyfrau sy’n dangos pobl o wahanol ddiwylliannau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Mae arweinwyr y lleoliad yn gweithredu’n effeithiol ac mae’r tim cyfan yn rhoi lles plant wrth wraidd popeth maent yn ei wneud. Mae gan arweinwyr weledigaeth bwrpasol ar gyfer y lleoliad ac maent yn ei rhannu gydag ymarferwyr, rhieni a'r gymuned ehangach yn briodol.

Mae gan arweinwyr ddatganiad o ddiben boddhaol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth yn gyffredinol. Maent wedi datblygu amrywiaeth o bolisïau a dogfennau sy'n cefnogi gweithdrefnau diogel y gwasanaeth. Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru a rheoleiddwyr eraill ac yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau arwyddocaol.

Mae arweinwyr yn cynnal gweithgareddau hunanwerthuso priodol sy'n canolbwyntio ar gryfderau'r lleoliad ac elfennau sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn adnabod blaenoriaethau addas  gan ganolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau mewn modd amserol.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel a chadarn. Maent yn cwblhau gwiriadau cyn-cyflogaeth priodol. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd, yn ôl y gofyn. Er enghraifft, mae arweinwyr yn cwblhau gwiriadau blynyddol tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar gyfer pob aelod o staff. Fodd bynnag, nid oedd tystysgrif GDG gyfredol ar gyfer yr unigolyn cyfrifol. Mae'r unigolyn cyfrifol eisoes wedi ceisio am dystysgrif newydd. Mae'r broses rheoli perfformiad yn addas ac yn annog ymarferwyr i fynychu ystod o hyfforddiant ac i gymhwyso eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw goruchwyliaeth ac arfarniadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn bodloni gofynion y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg.

Mae'r lleoliad yn manteisio ar adolygiadau, cyngor ac adborth gan asiantaethau allanol, megis tîm ymgynghorol yr awdurdod lleol, mudiadau ymbarél a'r ymwelydd iechyd. Maent yn mynd i'r afael â phryderon yn effeithiol, gan gyfeirio'n bwrpasol i'r asiantaethau cywir er mwyn cynorthwyo unigolion.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas agos â rhieni a gofalwyr. Maent yn rhannu gwybodaeth am les a datblygiad cyffredinol eu plant yn rheolaidd trwy sgyrsiau cyson ac ap digidol. Mae arweinwyr yn hysbysu rhieni yn effeithiol o'r gweithgareddau y bwriedir eu cyflawni gyda'u plant ar ddechrau bob tymor. O ganlyniad, mae gan rieni ddealltwriaeth addas o sut i gefnogi eu plant adref. Mae hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng y lleoliad a'r cartref ac yn sicrhau bod gan rieni a gofalwyr wybodaeth gyfoes am les a phrofiadau dysgu eu plant.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu cysylltiadau gwerthfawr â'r gymuned ehangach er mwyn meithrin ymdeimlad o berthyn yn y plant. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r Swyddfa Bost leol i bostio llythyron unigol y plant at Siôn Corn. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn dda, ac maent yn defnyddio'r ardal gyfagos yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn mynd â'r plant am dro yn yr ardal leol er mwyn bwydo'r ceffylau yn y cae.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/07/2026